# LC1421

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2007

Mae’r Gorchymyn hwn yn cychwyn, mewn perthynas â Chymru, ddarpariaethau Deddf Tai 2004 mewn perthynas â chynlluniau blaendal tenantiaeth. Os yw landlord yn gosod eiddo ar ffurf tenantiaeth fyrddaliol ac yn cymryd blaendal, rhaid iddo ddiogelu’r blaendal hwnnw gyda chynllun cymeradwy.

Caiff manylion yn ymwneud â chynlluniau cymeradwy eu cynnwys mewn rheoliadau ychwanegol a wneir ar y cyd â’r Ysgrifennydd Gwladol.

### Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

### Sylwadau

Dim.

### David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**30 Ionawr 2007**